

Annwyl Bawb

Bwriad y cylchlythyr deufisol hwn yw rhoi'r newyddion diweddaraf i chi am waith Seafish yng Nghymru, ac i amlygu unrhyw ddigwyddiadau diddorol neu gyfleoedd sy'n berthnasol i'r diwydiant bwyd môr yng Nghymru. Rwy'n awyddus iawn i glywed eich adborth, felly os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau, na phetruswch roi gwybod i mi.

### **Diweddariad am hyfforddiant alltraeth**

- Cyrsiau hyfforddiant diogelwch sydd i ddod (Cymorth Cyntaf, Goroesi ar y Môr, Ymladd Tân, ac Ymwybyddiaeth o Ddiogelwch) ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr:
  - Aberdaugleddau; 28 Tach – 1 Rhag
  - Bangor; 9 Rhag – 12 Rhag

Am ragor o wybodaeth neu i archebu lle, cysylltwch â'r Welsh Seafish Industry Training Association Ltd ar [welsh.sfi@tiscali.co.uk](mailto:welsh.sfi@tiscali.co.uk) neu ar 01558 824099.

- Mae cwrs adnewyddu hyfforddiant diogelwch rhad ac am ddim ar gael i bysgotwyr profiadol sydd wedi cwblhau eu hyfforddiant diogelwch dros dair blynedd yn ôl. Am ragor o wybodaeth gweler <http://www.seafish.org/training/seagoing-training/safety-training/refresher-training> neu ffoniwch y Welsh Seafish Industry Training Association Ltd ar 01558 824099.
- Bydd y Ganolfan Forol yng Ngholeg Llandrillo yn cyflwyno dau **gwrs Cyflwyniad i Bysgota Masnachol a gyllidir yn llwyr** ym mis Ionawr a mis Chwefror 2014. Mae'r cwrs tair wythnos hwn wedi ei gynllunio i annog dechreuwyr newydd i'r diwydiant pysgota, a bydd yn sicrhau fod unigolion yn derbyn hyfforddiant i lefel uwch nag isafswm y gofyniad cyfreithiol, ac a fydd â'r holl sgiliau sylfaenol hanfodol i ddechrau gweithio ar y môr. Wedi cwblhau'r cwrs bydd y dysgwyr oedd ar y cwrs yn cael cymorth gan Coleg Llandrillo a Seafish i ddarganfod profiad gwaith ystyrlon a dilyniant oddi fewn i'r diwydiant. Gobeithir y bydd y cwrs yn dod yn gam ar yr ysgol i ddysgwyr symud ymlaen ar raglen Prentisiaeth Pysgota Môr, y bydd y Coleg yn ei gynnig yn ddiweddarach yn y flwyddyn. **Bydd y cyrsiau yn dechrau ar gampws Coleg Llandrillo, Llandrillo yn Rhos ar 13 Ionawr a'r 3 Chwefror.** Am ragor o wybodaeth neu i wneud cais, cysylltwch ag Andy White, Cydlynnydd Morol Coleg Llandrillo ar [white1a@gllm.ac.uk](mailto:white1a@gllm.ac.uk) neu Holly Whiteley ar [holly.whiteley@seafish.co.uk](mailto:holly.whiteley@seafish.co.uk).

### **Diweddariad hyfforddiant sgiliau'r diwydiant Pysgod a Physgod Cregyn**

- Mae Seafish a'r Academi Hyfforddiant Bwyd Môr wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau **cyllid ar gyfer hyfforddiant yn y diwydiant pysgod a physgod cregyn yng Nghymru**. Mae'r cyllid yn rhan o'r Academi Sgiliau Cenedlaethol ar gyfer Cronfa blaenoriaethau Sector Bwyd a Diod Cymru. Bydd y rhan fwyaf o ffurfiau hyfforddiant pysgod a physgod cregyn yn cael cymorth, ynghyd â rhai cymwysterau galwedigaethol, gyda **hyd at £1000 ar gael i bob unigolyn**. Disgwylir i gyflogwyr wneud cyfraniad tuag at gost yr hyfforddiant ar gyfradd o 30% ar gyfer BBaCh a 50% i gyflogwyr mawr. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â [lee.cooper@seafish.co.uk](mailto:lee.cooper@seafish.co.uk).
- Mae'r Academi Hyfforddiant Bwyd Môr ar hyn o bryd yn sefydlu **Rhwydwaith Hyfforddiant Bwyd Môr i Gymru** yn seiliedig ar nifer o ddarparwyr hyfforddiant allweddol, a chyflogwyr pysgod a physgod cregyn. Os oes gennych ddi-ddordeb yn y fenter hon neu'n dymuno gwybod rhagor, anfonwch e-bost: [academy@seafish.co.uk](mailto:academy@seafish.co.uk).
- **Ar Ddod yn Fuan!** Bydd yr Academi Hyfforddiant Bwyd Môr yn cynnig **prentisiaethau i brosesyddion, ffriwyr pysgod, gwerthwyr pysgod a chanolfannau puro cregyn deuddarn yng Nghymru yn y dyfodol agos**. Mae'r prentisiaethau hyn yn aml wedi eu cyllido'n llawn neu'n rhannol, yn debyg i lawer o raglenni hyfforddiant cydnabyddedig eraill yr Academi Bwyd Môr. Dylai cyflogwyr sydd â diddordeb mewn prentisiaethau neu raglenni hyfforddiant wedi'u cyllido yng Nghymru edrych ar y dudalen we [edrych ar y dudalen we hon](#) neu gysylltu ag [academy@seafish.co.uk](mailto:academy@seafish.co.uk) am ragor o wybodaeth.

### **Diweddarau hyrwyddo**

- **Hysbysebu eich busnes bwyd môr.** Mae'r ap a'r wefan 'Local Catch' yn offer defnyddiol i helpu unrhyw un i leoli eu bwyd môr lleol, p'run ai oddi wrth bysgotwr lleol, gwerthwr pysgod neu fwyty bwyd môr. Ar hyn o bryd **MAE'N RHAD AC AM DDIM i gofrestru'ch busnes** gyda 'Local Catch' tan Ionawr 2014. Mae Pysgodfeydd Cywain yn darparu cymorth i unrhyw un sydd â diddordeb mewn bod yn rhan o hyn, a bydd yn hyrwyddo'r ap 'Local Catch' a'r wefan ymhlith defnyddwyr yng Nghymru y flwyddyn nesaf. Am ragor o wybodaeth neu pe bai chi'n dymuno cael unrhyw gymorth er mwyn ychwanegu eich busnes, mae croeso i chi gysylltu â Caroline Dawson ym Mhysgodfeydd Cywain ar 01745 770272/ 07577 934106 neu [caroline.dawson@menterabusnes.co.uk](mailto:caroline.dawson@menterabusnes.co.uk).
- **Hyrwyddo bwyd môr lleol Cymru.** Cynhyrchodd Pysgodfeydd Cywain nifer o ddeunyddiau argraffedig fel rhan o'u hymdrech i hyrwyddo bwyd môr yng Nghymru, gan gynnwys **Canllaw Defnyddwyr i Fwyd Môr Cymru**, poster rhywogaethau bwyd môr ac wyth cerdyn ryseitiau bwyd môr Cymru. Os oes gennych diddordeb mewn defnyddio unrhyw un o'r adnoddau hyn, er enghraifft i'w dosbarthu i gwsmeriaid, cysylltwch â Caroline Dawson, Pysgodfeydd Cywain ar 01745 770272/ 07577 934106 neu [caroline.dawson@menterabusnes.co.uk](mailto:caroline.dawson@menterabusnes.co.uk).

### **Diweddarau gwybodaeth am gyllid Ewropeaidd**

- Mae gan Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Bae Ceredigion (FLAG) fynediad erbyn hyn i Gronfa Pysgodfeydd Ewrop i gynorthwyo i gynnal diwydiant pysgota lleol, treftadaeth pysgota a chymunedau pysgota yng Ngheredigion ac Aberdyfi. Mae Alison Kinsey, cydlynnydd prosiect FLAG Bae Ceredigion, yn chwilio am syniadau prosiect gan unigolion lleol, busnesau, grwpiau cymunedol a chyrrff eraill gyda diddordeb yn y môr neu bysgodfeydd mewndirol, fyddai'n cyfrannu at bedair thema allweddol FLAG:
  1. Ymgysylltu â'r gymuned i godi proffil y diwydiant pysgota lleol, a chysylltu â phobl ifanc,
  2. Datblygu Cynnyrch Newydd ac Arloesi,
  3. Codi proffil cynnyrch pysgodfeydd lleol,
  4. Ymchwil, gan gynnwys astudiaethau dichonoldeb, ar ystod o faterion a allai arwain at brosiectau mwy a cheisiadau am gyllid yn y dyfodol.Am wybodaeth bellach am FLAG Bae Ceredigion cysylltwch ag Alison Kinsey ar 01545 574162/07583 847206 neu [alison.kinsey@ceredigion.gov.uk](mailto:alison.kinsey@ceredigion.gov.uk).
- Mae gan Bysgodfeydd Cywain arian ar gael i gefnogi'r sector pysgodfeydd i **ychwanegu gwerth drwy ddatblygu cynnyrch a marchnadoedd newydd**. Mae'r gwasanaeth ar gael i **bysgotwyr, gwerthwyr pysgod a busnesau acwafeithrin yng Nghymru**. Am ragor o wybodaeth ffoniwch Caroline Dawson (gogledd Cymru) ar 01745 770272 neu Jon Parker (de Cymru) ar 07841 869893

### **Cyfarfodydd a digwyddiadau sy'n digwydd yn fuan**

- Cynhadledd gwneud y gorau o adnoddau naturiol Cymru yn yr 21 Ganrif – Caerdydd, 25 Tachwedd
- Grŵp Pysgodfeydd y Glannau (IFG) y Gogledd – Porthaethwy – 27 Tachwedd
- Grŵp Pysgodfeydd y Glannau (IFG) y De – Caerfyrddin – 3ydd Rhagfyr
- Grŵp Pysgodfeydd y Glannau (IFG) y Canolbarth - Aberystwyth – 4 Rhagfyr
- Cynhadledd a Gweithdy FishMap Môn - Bangor - Bangor – 10 Rhagfyr
- Cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Seafish Cymru – Aberystwyth – 18 Rhagfyr

### **Cynhadledd a Gweithdy FishMap Môn 10fed Rhagfyr 2013**

*Mae FishMap Môn yn Gronfa wedi'i chyllido gan Gronfa Pysgodfeydd Ewrop, prosiect pilot cydweithredol rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru, Cwmni Cydweithredol Cyfyngedig Pysgotwyr Gogledd Cymru, Cynhyrchwyr Cregyn Gleision Cyfyngedig Bangor a Chymdeithas Pysgotwyr Môr Cymru. Amcan y prosiect oedd llywio rheolaeth gynaliadwy o amgylchedd morol Cymru drwy gasglu a mapio data gweithgaredd pysgota o dros 500 o randdeiliaid a'u cyfuno â gwybodaeth ar fathau o gynefin gwely'r môr a'u sensitifrwydd i weithgaredd pysgota.*

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal cynhadledd a gweithdy FishMap Môn yn rhad ac am ddim ar 10 Rhagfyr 2013 yn Neuadd Reichel, Safle Ffriddoedd, Prifysgol Bangor (LL57 2TR). Bydd y digwyddiad yn dod ag amrywiaeth fawr o randdeiliaid at ei gilydd o'r gymuned bysgota, y Llywodraeth a sefydliadau eraill sydd â diddordeb i :

- Arddangos yn amlwg dysg ac effeithiau FishMap Môn.
- Lansio Offer Canllaw FishMap Môn a thrafod sut i roi gwybodaeth i reolaeth gynaliadwy o'r amgylchedd morol.
- Trafod ymroddiad rhanddeiliaid, gweithio mewn partneriaeth a chymhwyso dull sy'n seiliedig ar ecosystem i reoli amgylchedd morol yng Nghymru

I gofrestru diddordeb yn y gynhadledd ac i wneud cais am ffurflen gais, anfonwch e-bost i Annwen Hope: [annwen.hope@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:annwen.hope@naturalresourceswales.gov.uk) neu ffoniwch 01248 387361.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn neu os hoffech gael unrhyw wybodaeth bellach am unrhyw beth uchod, na phetruswch gysylltu â fi ar [holly.whiteley@seafish.co.uk](mailto:holly.whiteley@seafish.co.uk) neu ar 07984 561 918. Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn, gadewch i mi wybod os gwelwch yn dda ac mi gymerwn eich enw oddi ar y rhestr bostio.

Anfonir e-lythyr Seafish Cymru ar y penwythnos sy'n cychwyn ar 3 Chwefror 2014.

**Paratowyd gan Holly Whiteley, Seafish Cymru**

S: +44 (0) 7984 561918 | E: [holly.whiteley@seafish.co.uk](mailto:holly.whiteley@seafish.co.uk) | G: [www.seafish.org](http://www.seafish.org)

Dilynwch Seafish ar Twitter: [www.twitter.com/seafishuk](http://www.twitter.com/seafishuk)

Dilynwch fi ar Twitter: [www.twitter.com/seafishwales](http://www.twitter.com/seafishwales)